WGOS

# Cylchlythyr

Gwasanaethau Offthalmig Cyffredinol Cymru
Wales General Ophthalmic Services

*12fed rhifyn, Medi 2024*

## Croeso

***Cylchlythyr WGOS*** yw'r lle gorau i'ch cefnogi i gyflwyno WGOS. Bydd pob cylchlythyr yn rhoi crynodeb o bwnc penodol gyda dolenni i adnoddau a chymorth perthnasol. Gydag awgrymiadau a chyngor i'ch helpu i gyflwyno WGOS... ***rydym yma i chi.***

Mae WGOS yn dod ag ystod ehangach o wasanaethau gofal llygaid a ariennir gan y GIG a ddarperir gan optometryddion, Ymarferwyr Meddygol Offthalmig (OMPs) ac optegwyr dosbarthu yng Nghymru, gyda phob aelod o dîm y practis yn cydweithio i weithio ar frig eu trwydded glinigol berthnasol.



## Bydd Cylchlythyr #12 yn canolbwyntio ar y canlynol: Mewnwelediad Gwasanaethau Offthalmig Cyffredinol Cymru:

Mae Mewnwelediadau Gwasanaeth yn digwydd deirgwaith y flwyddyn a byddant yn cwmpasu ystod eang. Mae'n gyfle i GIG Cymru wrando arnoch chi, wrth i chi gyflawni WGOS, fel y gallwn eich cefnogi'n well.

Rhaid i bob practis optometreg sy'n cyflawni Gwasanaethau Offthalmig Cyffredinol Cymru (WGOS) gymryd rhan mewn tri Mewnwelediad Gwasanaeth bob blwyddyn ariannol. Mae hyn yn rhan o Becyn Ansawdd WGOS, sy'n gysylltiedig â thaliad i Gontractwyr. Yr agweddau eraill ar Becyn Ansawdd WGOS yw Ansawdd ar gyfer Optometreg (rhestr wirio practis i sicrhau ansawdd Byrddau Iechyd) ac adrodd ar y Gweithlu (i helpu i gynllunio gwasanaeth a hyfforddiant)

Mae'r mewnwelediad gwasanaeth cyntaf hwn yn ymwneud â'r amgylchedd. Yr effaith fydd;

- Cefnogi'r proffesiwn yn well i fabwysiadu ymddygiadau amgylcheddol.
- Sicrhau bod y proffesiwn yn deall polisi Llywodraeth Cymru.
- Cyfathrebu y tu allan i Gymru ac ychwanegu at y gronfa ymchwil a gwybodaeth yn y maes hwn.

Dilynwch y ddolen hon i weld yr arolwg mewnwelediad gwasanaeth.

**https://forms.office.com/e/yftK82b19u**

**Rhaid cwblhau'r arolwg mewnwelediad gwasanaeth hwn erbyn *18.10.2024.***

## ? Cwestiynau allweddol

- A ydw i wedi darllen y canllawiau mewnwelediad gwasanaeth?
- A ydw i wedi cwblhau'r mewnwelediad gwasanaeth ac wedi argraffu'r dystysgrif cwblhau? (ymarferwyr)
- Ac ar gyfer contractwyr, a ydw i wedi cefnogi fy ymarferwyr i gwblhau'r mewnwelediad gwasanaeth ac wedi cadw cofnod o'u holl dystysgrifau cwblhau?

- Os mai **'ydw/ydy'** tyw eich ateb i bob un o'r uchod, ymlaciwch ac arhoswch am y cylchlythyr nesaf. **Os na, gweithredwch nawr:**
- Cyrchwch arolwg mewnwelediad gwasanaeth amgylcheddol https://www.gig.cymru/sa/gofal-llygaid-cymru/wgos/gweithiwr-iechyd-llygaid-proffesiynol/mewnwelediadau-gwasanaeth/
- Cyrchwch y ffurflen hawlio mewnwelediad gwasanaeth https://forms.office.com/e/yftK82b19u

# Crynodeb

## Beth?

Ar gyfer y Mewnwelediad Gwasanaeth cyntaf hwn: "Yr Amgylchedd", rhaid i bob Optometrydd sy'n perfformio gwasanaethau offthalmig gwblhau'r mewnwelediad gwasanaeth gorfodol. Os ydych yn gweithio ar draws mwy nag un practis, cwblhewch yr arolwg unwaith yn unig, yn yr hyn a ystyriwch yw eich prif weithle.

## Pryd?

Rhaid cwblhau'r arolwg erbyn **18.10.2024**

## Sut?

**https://forms.office.com/e/yftK82b19u**

# Cadwch mewn cysylltiad!

Optometreg Cymru yw'r sefydliad ymbarél proffesiynol ar gyfer y proffesiynau iechyd llygaid gofal sylfaenol yng Nghymru. Gallant gynnig cymorth a chyngor i chi.

E-bost: Debbie.O'Sullivan@Optometrywales.com

I gael diweddariadau yn y dyfodol trwy e-bost, cofrestrwch eich cyfeiriad e-bost yn https://forms.office.com/e/4Kksq7sFpu neu tynnwch lun o'r cod QR isod gyda'ch ffôn clyfar.

Mae diweddariadau blaenorol i'w gweld yn:
https://www.nhs.wales/sa/eye-care-wales/professionals/latest-news-for-professionals/wgos-newsletters/